Site Stakeholder Group

Summary of the key points from the Trawsfynydd Site Stakeholder Group Meeting held on the 9 June 2022 at Trawsfynydd Visitors Centre, Trawsfynydd.

1. The Chair welcomed all to the first face to face meeting since COVID 19 and thanked the Vice Chair for covering his duties during his recent illness. He also thanked SSG members for their well wishes.

2. Angharad Rayner presented the Magnox Site Closure Director's Report

3. Ian Dallas from the ONR provided a report in his absence and members were invited to forward any queries/comments they may have via Jill Callander

4. Iwan Williams gave a briefing on the NRW report circulated previously.

5. Mike Baggs gave a briefing on the EA report circulated previously.

6. Mr Simon Napper gave a presentation on behalf of the NDA

7. Ian Warner gave an update on the Ponds Complex Demolition and Disposals Project.

8. John Turp provided details of the scheme of work for the Rolling Programme of Decommissioning

9. John Idris Jones, Cwmni Egino introduced the newly appointed CEO Adam Raymant and Elliw Williams the newly elected Communication Officers.

Site Stakeholder Group

Trawsfynydd Site Stakeholder Group Meeting
Thursday 9 June 2022 13.00 hrs
Trawsfynydd Visitors Centre

MINUTES

PRESENT

NAME	ORGANISATION
Keith O'Brien, Chair	
Cllr. John Richards Vice-Chair	Talsarnau Community Council
Angharad Rayner	Site Closure Director
Mair Jones	Communications, Magnox
Bill Hamilton	Magnox Communications Director
Steven Wilmott	Principal Waste Consultant, Magnox
Ian Warner	Contaminated Land Manager, Magnox
Rory Trappe	Trade Union Rep, Trawsfynydd
Claire Wing	Comms Regional Lead, Magnox
Ben Bridgewater	Senior Waste Consultant, Magnox
John Turp	Plant & Structures Programme Manager, Magnox
Andy McAteer	Station Engineer (Maentwrog), Magnox
Tasmeen Akthar	Environmental Advisor, Magnox
Paul Richardson	Trade Union Rep, Magnox Trawsfynydd
Alan Raymant	CEO Cwmni Egino
John Idris Jones	Cwmni Egino
Elliw William	Cwmni Egino
Cllr. Gwynfor Owen	Gwynedd Council
Cllr Elfed Roberts	Gwynedd Council
Nia Bowden	Gwynedd Council
Cllr. D. Meredydd Williams	Maentwrog Community Council
Simon Napper	Nuclear Decommissioning Authority (NDA)
Simon Bromley	NW Fire Service
Sion Roberts	Snowdonia National Park
Iwan Williams	Natural Resources Wales
Mike Baggs	Environment Agency
Sam Morgan	Member of the public
Matt Henchcliffe	Member of the public
Simon Wilson	Member of the public
Paul Meeson	Member of the public
Manon ?	Cymen - Translator
Sydna Roberts	Cymen – minute taker

1. Apologies for absence

The Chair welcomed everyone to the meeting at 1pm. The following apologies were noted: -

Jonathan Holland, Emergency Planning, North Wales Council
Roy Chape, Emergency Planning
Chris Thomas, Food Standards Agency
Rhys Llywelyn, Chairman Prysor Angling Association
Ian Dallas, ONR
Sioned Williams, Head of Economy & Community, Gwynedd Council
Jeff Hall, North Wales Fire & Rescue Service
Medwyn Williams, Penrhyndeudraeth Town Council
Glyn Daniels, Gwynedd CC
David Wilby, Natural Resources Wales

2. Approve the Minutes of the meeting held on 18 November 2021

Minutes of the meeting held on 18 November 2021 were presented and accepted as a correct record – (GO/JIJ) pending the following corrections: -.

- Cllr Gwynfor Owen is a member for Harlech and Llanbedr on Gwynedd County Council.
- Cllr Meredydd Williams represents Maentwrog Community Council and not Penrhyndeudraeth Town Council as recorded.

3. Matters arising from the minutes of the meeting held on 18 November 2021

None raised

4. Chairman's Address

The Chair welcomed all to the meeting following the recent COVID restrictions. He thanked SSG members for their good wishes during his recent ill-health. He thanked John Richards Vice-Chair for deputising and invited him to provide an update since the last meeting.

JR referred to the SSG Chair and Vice Chairs quarterly meeting held on 20 May 2022. A presentation was given by NULEAF, the voice of local government on nuclear decommissioning and radioactive waste management. Reference was also made to the importance of having the input of young people on future SSG groups. Bill Hamilton, Communications Director Magnox expanded on this as follows:-

- Magnox to establish a new website for SSG's
- Work with the NDA to set up a Young People's Forum

BH noted that a presentation on the above will be given to the next meeting of the SSG

The Chair thanked both JR and BH for their input, noting that there had been young people representation from Coleg Meiron Dwyfor on the SSG previously and that possible reintroduction would be a positive step forward.

He extended condolences to Rory Trappe on his recent bereavement.

He welcomed Alan Raymant to his first meeting of the SSG as the CEO of Cwmni Egino.

Noted that Jonathan Holland will be the Lead Officer for REPPIR sites in North Wales from January 2022.

Ifer Gwyn from Horizon has now moved onto a new role and will no longer be attending the SSG. He thanked Ifer for his support and wished him well in his new role.

Cllr. Medwyn Williams has advised he is no longer a member of Penrhyndeudraeth Town Council. The Chair thanked him for his input and support.

5. Site Closure Director's Report – Angharad Rayner

Angharad Rayner, Site Closure Director was welcomed to the meeting and provided members with a presentation on Site developments since the last meeting summarised as follows: -

Safety Share – following an incident at Hinkley Point an independent investigation team was set up on site which led to recommendations and actions to make improvements and reinforce the importance of robust safety measures across all Sites.

Safety Focus -

Number of days since a lost time accidents currently stands at 1916 days.

There has been 671 days since a contamination event and 88 days since a significant environmental event.

Sustainability - a Trawsfynydd Sustainability steering group has been established which is represented by a diverse range of individuals from across the sites who are passionate about being involved in this initiative. One of the major projects has been the renovation of Dragons Square.

COVID 19 - Improvements identified:

- Review of ventilation risk assessments to ensure that each area has the necessary arrangements established
- Home testing plays a crucial part in preventing the virus from coming onto site and staff are encouraged to undertake Lateral Flow Testing prior to attending site.
- The testing facility at the Visitor Centre has been reopened for two sessions where the LFT team will be on hand to provide guidance and support.

Workforce Profile - currently a total of 168 Magnox staff and 56 ASWs

Since January 2022 a total of 13 Agency Supplied Workers (ASW) have been converted onto Magnox contracts.

Three external candidates have been appointed to Magnox roles with a further three currently going through the onboarding process

In September a further two apprentices started with the Maintenance department.

The five health physics apprentices who joined last year have all passed their Award for Nuclear Industry Awareness exam.

NDA Employment Awards - 3 entries from Trawsfynydd were shortlisted in this year's Wellbeing Excellence Awards, two of which were highly commended which is a great achievement for the site.

Smarter Working Programme – Trawsfynydd is a pilot site for Smarter Working across Magnox trialling new technology and workplace tools to see what difference they can make to people's working life.

The Smarter Working Technology team in collaboration with the Cyber Security & Information Assurance team recently held a roadshow on site focusing on four workstreams:

- HR
- Behavioural and cultural
- Technology
- Smarter working /smarter spaces

Health and Well Being Group – The Site's H&W group have been very proactive throughout the pandemic offering physical and virtual activities including coffee mornings to give those working from home the opportunity to interact with colleagues. They have also arranged an array of events to support people's mental health and wellbeing such as

- A photography courses
- Spanish lessons
- Book club
- Mindfulness & yoga
- Owl experience

The group have their own intranet page and issue a quarterly magazine.

Waste Achievements - against an overall target of retrieving 50 tonnes of intermediate level waste (ILW) during this financial year, 30 tonnes have been retrieved to date with a forecast of 46te by the end of March 2022 (approximately 5 tonnes of ILW avoided by cleaning down to Low Level Waste).

Asset Management achievements –

- Pwmp Dail and the Diversion Culvert works are nearing completion, reducing the asset condition risk to Trawsfynydd site.
- Plant items were decontaminated and sentenced for recycling via a purpose-built handling facility.

- Decontamination of oil interceptor in main carpark removes legacy hazard from the site.
- Refurbishment of main car park.
- Renovation of Dragon Square.
- LC28 (Civil Building Structural Inspections and Defects) Descaling on SS1 & SS2 has been complete
- LC 28 Defects Ponds and Safetsores has commenced.

Pond Complex deplant - works are complete in following areas:

  - Final Delay Tanks
  - Switch Room
  - Ponds cooler room
  - South Filter Room
- Active Effluent Treatment Plant Basement area de-planted. Significant milestone achieved in high hazard legacy plant area removed.
- Works commenced in Decanted Water Treatment Plant – another significant contaminated legacy plant area.

Safestore height reduction -

- Currently in last phase of preparation for height reduction enabling works.
- Asbestos removal complete in 6 out of 8 cable risers.
- Completion expected during first quarter of 2022/23 financial year.
- Initial Supply Chain procurement activities complete for Demolition consultant and Consultant Engineering support.
  - RVA appointed as Demolition Consultant
  - Arup appointed as Engineering Support Consultant
- Review of Planning Permission implications
- Agreement to accelerate Capping Roof Phase 2 as a key enabler to complete the small areas of Capping roof (omitted originally for operational requirements)
- Characterisation Data Quality Objective (DQO) complete and Sampling and Analysis plans in development
- Design Authority Review 2 complete
- Waste Authority Review 2 complete
- Asbestos R&D surveys commenced

Site work for the next 6 months –

- Completion of South FED bulk retrievals.
- Complete characterisation of porous concrete within the North FED Vault.
- Completion of asbestos removal in Safestore 2 cable risers.
- Complete removal of Safestores 1&2 internal walls.
- Complete deplant of Decanted Water Treatment Plant in Ponds Complex.
- Completion of principal contractor, JN Bentley, works to Pwmp Dail and Diversion Culvert and demobilisation of their site.

Visits to Site – AR referred to several site visits over the reporting period including Paul Winkle Chief Operating Officer Magnox, Dave Peattie CEO NDA, Cwmni Egino, Sky News and Bangor University. She noted that arrangements are in hand for an SSG site visit in September/October 2022.

Magnox Socio-Economic grants –

- **Covid support** - £236k out of £300k has been approved to date. £25k was made available for Local Authorities near the 12 Magnox sites. The majority support has been for food bank provisions - PPE and equipment; baby boxes for vulnerable families, creativity kits for mental well-being. Also 3D printers purchased for a secondary school and college to produce visors for key workers.
- **Cricieth Memorial Hall** received £1,000 good neighbour socio-economic funding towards improving the energy efficiency within the hall.
- **Bala Lake Railway (BLR) Trust** received £23k Magnox funding in 2019 which supported early stages of the project. An additional £38,970 has been approved for professional fees to meet obligations by planning and regulatory bodies.
- **Grŵp Llandrillo Menai** have been awarded £386,034 NDA direct funding towards a £1.9m LabSTEM project.

AR also noted that an Emergency Plan Level 1 exercise will be undertaken on 15 June where Emergency Services will be in attendance on site.

The Chair thanked AR for her comprehensive update and invited members to present any questions.

Question and Answer Session

Cllr G Owen enquired if there had been an increase in the workforce profile. He also enquired about additional funds being available via the Socio-Economic grants. AR noted an approximate increase of 30 in the workforce profile. MJ confirmed that there will be additional funding available.

Paul Richardson enquired whether the possible development of a SMR would affect the de-commissioning process. AR noted that it was too early in the process to note.

Matt Henchcliffe enquired whether any recycling would be undertaken internally or externally. AR stated that principal contractors will be utilised as regards recycling as there are no relevant in-house skills. JT confirmed that only non-contaminated items will be recycled. He also confirmed that a feasibility study will be undertaken as regards the future use of the Railway.

Cllr Meredydd Williams reiterated the view that continuous dialogue with the local community is essential.

S Morgan referred to other local projects that will be undertaken over the next few years and enquired as to the possibility of transferring the workforce skills of those projects to the Traws site and therefore securing jobs. AR stated that the Magnox remit is to de-commission the site and that no ‘clashes’ with workforce issues are envisaged at this time. The Chair reiterated that the role of the SSG is

to perform as a critical friend to the de-commissioning process acknowledging that future developments may well be undertaken collaboratively.
BH noted that any 'new build' developer may establish a separate stakeholder group.

6. Report by the Office for Nuclear Regulation – Ian Dallas

Mr Ian Dallas had tendered his apologies for this meeting, however, the content of the report he presented was noted and accepted. Members were welcomed to provide any further comments or queries on email via Jill Callander. (jill.m.callander@magnoxsites.com)

7. Report by Natural Resources Wales – Iwan Williams

IW noted that there were no significant issues to report and that collaborative working between NRW and Magnox continues with on-site visits reinstated following the COVID 19 restrictions.

Question and Answer Session - none received

8. Environment Agency Report – Mike Baggs

MB reported that 3 on-site visits had taken place during this reporting period and no issues or concerns re non-compliance had been recorded. He stated that a lot of the work undertaken had been in respect of assessment documents for the demolition of the ponds complex.

Question and Answer Session - none received

9. Report by the Nuclear Decommissioning Authority – Simon Napper

SN provided a summary of the NDA report drawing particular attention to the following:-

GDF Siting Process – there are now three Community Partnerships in West Cumbria. Community Partnerships are a further step in an exploratory, fact-finding and discussion process with the local community about hosting a GDF.

In Lincolnshire, Theddlethorpe has announced its local Search Area, i.e. the place where it would look to site a GDF. The local Working Group is looking to move the process forward over the coming months and establish a Community Partnership**.**

Supply Chain Event - new date set for 21 July 2022 and will be held at The International Centre, Telford with the Supply Chain Awards ceremony same day.

NDA – 'Keeping the Conversation going' – this year's Stakeholder Summit will be an in-person event held in Edinburgh on 7-8 September 2022

NDA and Cwmni Egino Joint Collaboration - BEIS has announced that the NDA is to work with Cwmni Egino to develop proposals for new nuclear development at Trawsfynydd

Question and Answer Session
Cllr Elfed Roberts expressed the local concern regarding waste disposal. AR explained the 3 levels of waste and assured members that all waste is disposed of in accordance strict statutory regulations.

Cllr John Richards enquired as to the transfer of AGR's to the NDA. It was noted that the NDA has been directed by Government to take on future ownership of the seven EDF AGR sites for decommissioning. Magnox Ltd will be responsible for decommissioning the seven sites following defueling

Rory Trappe enquired if the NDA de-commissioning workforce model included current local skills and will this element be clearly stated in the Strategy. SN acknowledged that the de-commissioning industry will grow over the next few years and that workforce projects are currently being undertaken in collaboration with Welsh Government.

10. Ponds complex demolition project update – Ian Warner
IW provided an update report on the above drawing particular attention to the configuration of the complex. He outlined the current work programme as follows:-

- Systematic de-planting
- Characterisation
- Disposal configuration
- Groundwater compliance
- Planning application development
- Stakeholder engagement
- Permit variation application development

He referred to the importance of robust Stakeholder Engagement supported by an agreed Communication Plan. Engagement activity will include

- a bi-lingual local communities letter for early circulation
- creation of a virtual Town Hall which will serve as a platform for sharing information and receiving comment.
- establish drop in centres in Libraries; Lakeside café and Village/Town halls

Question and Answer session
JR asked what would happen if Snowdonia National Park was against any disposal planning. IW noted that this would depend on what the issue might be.

11. Rolling Programme Decommissioning – John Turp

JT provided an update on the Rolling Programme of Decommissioning (RPD) summarised as follows:

- Strategy approval for the RPD Business Case is expected this summer and is currently with BEIS/Treasury for approval.

Future work:

- Develop technical and commercial scheme design specifications
- Develop and deliver characterisation scope to build understanding of the physical and radiochemical properties of the reactors.
- Mature the waste strategy to develop our approaches to how we will deal with our future waste arisings both radioactive and non-radioactive.
- Develop the commercial strategy for a long term partnership(s)

Question and Answer session

Cllr Meredydd Williams asked how much concrete waste there might be and would it be crushed. JT noted that at this stage it is uncertain as to the amount but reassured members that re-use or disposal would be undertaken in line with the appropriate permits.

JR enquired as to the disposal route for graphite. JT confirmed that graphite will be stored in boxes on site in accordance to regulations. He also noted that there is a National Work Programme currently looking at graphite disposal methods and members will be provided with regular updates on this work.

As regards members concerns for current workforce continuity JT acknowledged the need for a robust recruitment and retention strategy to identify current transferable skills.

12. Cwmni Egino update – John Idris Jones

JIJ reminded members that Cwmni Egino, an entity owned by Welsh Government, was established in order to bring quality employment, economic prosperity to the area and a future for the Welsh language. He introduced Cwmni Egino's two newly appointed staff - Mr Adam Raymant, CEO and Elliw Williams, Communications Officer. Mr Adam Rayment gave a brief address noting that the key work for the next 12 months will be to identify roles and remit within Egino and learn from previous lessons and experiences with support from Welsh Government. He stated that collaborative working with the NDA was key in order to identify workstreams, site interfaces and ensure dovetailed activity. This will optimise resource planning with Magnox input. He also acknowledged the concerns raised by members during the meeting regarding future workforce resource.

The Chair congratulated both Adam R and EW on their appointments.

Question and Answer Sessions

RT enquired if any relevant companies had indicated Traws as a possible site for SMR. AR stated that there were no confirmed proposals as yet but that it was an important issue with many questions on the table. EW noted the importance of seeking local views and, as Egino's Communications Officer, invited members to contact her in order to facilitate opportunities for local discussion.

13. AOB

SSG membership - Local Councillors

It was agreed that Jill Callander review the above in light of recent Local Authority and Town and Community Council elections. ACTION – Jill Callander to review distribution list to ensure this is current.

Maintenance Work

Members were informed that work to inspect the condition of the footbridge is ongoing. Also, the low level of the lake has been as a result of maintenance work being undertaken in Maentwrog, however the level is expected to rise over the next week.

16. Date and time of next meeting

Date: 1 December 2022
Time: T.B.C
Venue: Trawsfynydd Conference and Induction Centre

Meeting ended at 3:30pm

Site Stakeholder Group

Crynodeb o'r prif bwyntiau o gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle (SSG) Trawsfynydd a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2022 yng Nghanolfan Ymwelwyr Trawsfynydd.

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf ers COVID 19, a diolchodd i'r Is-gadeirydd am ymgymryd â'i ddyletswyddau yn ystod ei salwch diweddar. Diolchodd hefyd i aelodau'r SSG am eu dymuniadau da.

2. Cyflwynodd Angharad Rayner Adroddiad Cyfarwyddwr Cau Safle Magnox

3. Nid oedd Ian Dallas o'r Swyddfa Rheoleiddio Niwcliar yn bresennol, ond fe ddarparodd adroddiad yn ei absenoldeb a gwahoddwyd yr aelodau i anfon unrhyw ymholiadau/sylwadau a allai fod ganddynt drwy Jill Callander

4. Rhoddodd Iwan Williams briff ar adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru a ddosbarthwyd yn flaenorol.

5. Rhoddodd Mike Baggs briff ar adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd a ddosbarthwyd yn flaenorol.

6. Rhoddodd Mr Simon Napper gyflwyniad ar ran yr NDA

7. Rhoddodd Mr Ian Warner y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Dymchwel a Gwaredu Cyfadeilad y Pyllau.

8. Rhoddodd John Turp fanylion y cynllun gwaith ar gyfer y Datgomisiynu'r Rhaglen Dreigl

9. Cyflwynodd John Idris Jones, Cwmni Egino, y Prif Weithredwr newydd sef Adam Raymant, ac Elliw Williams, y Swyddog Cyfathrebu sydd newydd gael ei hethol.

Site Stakeholder Group

Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd
Dydd Iau 9 Mehefin 2022 am 13.00 o'r gloch
Canolfan Ymwelwyr Trawsfynydd

COFNODION

YN BRESENNOL

ENW	**SEFYDLIAD**
Keith O'Brien, Cadeirydd	
Y Cyng. John Richards (Is-gadeirydd)	Cyngor Cymuned Talsarnau
Angharad Rayner	Cyfarwyddwr Cau Safle Magnox
Mair Jones	Cyfathrebiadau, Magnox
Bill Hamilton	Cyfarwyddwr Cyfathrebu Magnox
Steven Wilmott	Prif Ymgynghorydd Gwastraff, Magnox
Ian Warner	Rheolwr Tir Halogedig, Magnox
Rory Trappe	Cynrychiolydd Undeb Llafur , Trawsfynydd
Claire Wing	Arweinydd Rhanbarthol Cyfathrebu, Magnox
Ben Bridgewater	Uwch Ymgynghorydd Gwastraff, Magnox
John Turp	Rheolwr Rhaglen Peiriannau a Strwythurau, Magnox
Andy McAteer	Peiriannydd Gorsaf (Maentwrog), Magnox
Tasmeen Akthar	Cynghorydd Amgylcheddol , Magnox
Paul Richardson	Cynrychiolydd Undeb Llafur, Magnox Trawsfynydd
Alan Raymant	Prif Swyddog Gweithredol Cwmni Egino
John Idris Jones	Cwmni Egino
Elliw William	Cwmni Egino
Y Cyng. Gwynfor Owen	Cyngor Gwynedd
Y Cyng. Elfed Roberts	Cyngor Gwynedd
Nia Bowden	Cyngor Gwynedd
Y Cyng. David Meredydd Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog
Simon Napper	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)
Simon Bromley	Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
Sion Roberts	Parc Cenedlaethol Eryri
Iwan Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mike Baggs	Asiantaeth yr Amgylchedd
Sam Morgan	Aelod o'r cyhoedd
Matt Henccliffe	Aelod o'r cyhoedd
Simon Wilson	Aelod o'r cyhoedd
Paul Meeson	Aelod o'r cyhoedd
Manon ?	Cymen - Cyfieithydd
Sydna Roberts	Cymen – cofnodydd

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod am 1pm. Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol: -

Jonathan Holland, Cynllunio at Argyfyngau, Cyngor Gogledd Cymru
Roy Chape, Cynllunio at Argyfyngau
Chris Thomas, Asiantaeth Safonau Bwyd
Rhys Llywelyn, Cadeirydd Cymdeithas Bysgota Prysor
Ian Dallas, Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd
Jeff Hall, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Medwyn Williams, Cyngor Tref Penrhyndeudraeth
Glyn Daniels, Cyngor Gwynedd
David Wilby, Cyfoeth Naturiol Cymru

2. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2021

Cafodd cofnodion y cyfarfod ar 18 Tachwedd 2021 eu cyflwyno a'u derbyn fel cofnod cywir - (GO/JIJ), heblaw am y cywiriadau isod: -.

- Mae'r Cyng. Gwynfor Owen yn aelod ar gyfer Harlech a Llanbedr ar Gyngor Sir Gwynedd.
- Mae'r Cyng. Meredydd Williams yn cynrychioli Cyngor Cymuned Maentwrog ac nid Cyngor Tref Penrhyndeudraeth fel y cofnodwyd.

3. Materion sy'n codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2021

Ni chodwyd unrhyw fater

4. Anerchiad y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod yn dilyn cyfyngiadau COVID diweddar. Diolchodd i aelodau'r SSG am eu dymuniadau da yn ystod ei salwch diweddar. Diolchodd i John Richards, yr Is-gadeirydd, am ddirprwyo a gofynnodd iddo ddarparu diweddariad ers y cyfarfod diwethaf.

Cyfeiriodd JR at gyfarfod chwarterol Cadeiryddion ac Is-gadeirydd yr SSG a gynhaliwyd ar 20 Mai 2022. Cafwyd cyflwyniad gan NULEAF, llais llywodraeth leol ar ddatgomisiynu niwclear a rheoli gwastraff ymbelydrol. Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd cael mewnbwn pobl ifanc ar grwpiau SSG yn y dyfodol. Ymhelaethodd Bill Hamilton, Cyfarwyddwr Cyfathrebu Magnox ar hyn fel a ganlyn:-

- Magnox i sefydlu gwefan newydd ar gyfer SSG
- Gweithio gyda'r NDA i sefydlu Fforwm Pobl Ifanc

Nododd BH y bydd cyflwyniad ar yr uchod yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf SSG

Diolchodd y Cadeirydd i JR a BH am eu cyfraniad, gan nodi bod cynrychiolaeth gan bobl ifanc o Goleg Meirion Dwyfor wedi bod ar yr SSG o'r blaen, ac y byddai'r posibilrwydd o'u croesawu unwaith eto yn gam cadarnhaol ymlaen.

Estynnodd ei gydymdeimlad i Rory Trappe ar ei brofedigaeth ddiweddar.

Croesawodd Alan Raymant i'w gyfarfod cyntaf o'r SSG fel Prif Weithredwr Cwmni Egino.

Nodwyd mai Jonathan Holland bydd y Swyddog Arweiniol ar gyfer safleoedd REPPIR yng Ngogledd Cymru o fis Ionawr 2022 ymlaen.

Mae Ifer Gwyn o Horizon bellach wedi symud i rôl newydd ac ni fydd yn mynychu'r SSG mwyach. Diolchodd i Ifer am ei gefnogaeth a dymunodd yn dda iddo yn ei rôl newydd.

Mae'r Cyng. Medwyn Williams wedi rhoi gwybod nad yw bellach yn aelod o Gyngor Tref Penrhyndeudraeth. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei fewnbwn a'i gefnogaeth.

5. Adroddiad Cyfarwyddwr Cau'r Safle - Angharad Rayner

Croesawyd Angharad Rayner, Cyfarwyddwr Cau Safle, i'r cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad i'r aelodau ar ddatblygiadau'r Safle ers y cyfarfod diwethaf, a grynhoir fel a ganlyn: -

Rhannu Diogelwch – yn dilyn digwyddiad yn Hinkley Point, sefydlwyd tîm ymchwilio annibynnol ar y safle a arweiniodd at argymhellion a chamau gweithredu i wneud gwelliannau, yn ogystal ag atgyfnerthu pwysigrwydd mesurau diogelwch cadarn ar draws pob Safle.

Canolbwyntio ar Ddiogelwch

Nifer y diwrnodau ers damweiniau colli amser ar hyn o bryd yw 1916 diwrnod.

Mae 671 o ddiwrnodau wedi mynd heibio ers digwyddiad halogi, ac 88 diwrnod ers digwyddiad amgylcheddol arwyddocaol.

Cynaliadwyedd – mae grŵp llywio Cynaliadwyedd Trawsfynydd wedi cael ei sefydlu sy'n cael ei gynrychioli gan amrywiaeth eang o unigolion ar draws y safleoedd sy'n frwd dros gymryd rhan yn y fenter hon. Un o'r prif brosiectau fu adnewyddu Sgwâr y Dreigiau (Dragons Square).

COVID-19 – Nodwyd y gwelliannau:

- Adolygu asesiadau risg awyru i sicrhau bod gan bob ardal y trefniadau angenrheidiol wedi'u sefydlu
- Mae profi yn y cartref yn rhan hollbwysig o atal y feirws rhag dod ar y safle ac anogir staff i gynnal Profion Llif Unffordd cyn mynd i'r safle.

- Mae'r cyfleuster profi yn y Ganolfan Ymwelwyr wedi'i ailagor ar gyfer dwy sesiwn lle bydd y tîm prawf llif unffordd wrth law i roi arweiniad a chefnogaeth.

Proffil y Gweithlu - ar hyn o bryd mae cyfanswm o 168 o staff Magnox a 56 o Weithwyr a Gyflenwyd gan Asiantaeth (ASW)

Ers mis Ionawr 2022 mae cyfanswm o 13 o Weithwyr a Gyflenwyd gan Asiantaeth wedi llwyddo i gael contractau Magnox.

Mae tri ymgeisydd allanol wedi cael eu penodi i rolau Magnox, ac mae tri arall yn mynd drwy'r broses gynefino ar hyn o bryd

Ym mis Medi, dechreuodd dau brentis arall gyda'r adran Cynnal a Chadw.

Mae'r pum prentis ffiseg iechyd a ymunodd y llynedd i gyd wedi pasio eu harholiad Gwobr am Ymwybyddiaeth o'r Diwydiant Niwclear (ANIA).

Gwobrau Cyflogaeth yr NDA – cafodd 3 chais o Drawsfynydd eu rhoi ar y rhestr fer yng Ngwobrau Rhagoriaeth Lles eleni, a chafodd dau ohonynt ganmoliaeth uchel, sy'n llwyddiant mawr i'r safle.

Rhaglen Gweithio'n Glyfar – Mae Trawsfynydd yn safle peilot ar gyfer y rhaglen Gweithio'n Glyfar ar draws Magnox. Mae'r rhaglen yn treialu technoleg newydd ac offer yn y gweithle i weld pa wahaniaeth y gallant ei wneud i fywyd gwaith pobl.

Yn ddiweddar, cynhaliodd y tîm Technoleg Gweithio'n Glyfar sioe deithiol ar y safle, a hynny ar y cyd â'r tîm Seiberddiogelwch a Sicrwydd Gwybodaeth. Roedd y sioe deithiol yn canolbwyntio ar y pedair ffrwd waith canlynol:

- Adnoddau Dynol
- Ymddygiad a diwylliant
- Technoleg
- Gweithio'n Glyfar/Mannau Clyfar

Grŵp Iechyd a Lles – Mae grŵp Iechyd a Lles y Safle wedi bod yn rhagweithiol iawn drwy gydol y pandemig yn cynnig gweithgareddau wyneb yn wyneb a rhai rhith, gan gynnwys boreau coffi i roi cyfle i'r rheini sy'n gweithio gartref ryngweithio â chyd-weithwyr**.** Maent hefyd wedi trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau i gefnogi iechyd meddwl a lles pobl fel

- Cyrsiau ffotograffiaeth
- Gwersi Sbaeneg
- Clwb llyfrau
- Ymwybyddiaeth ofalgar ac ioga
- Profiad gyda thylluan

Mae gan y grŵp eu tudalen mewnrwyd eu hunain ac maent yn cyhoeddi cylchgrawn chwarterol.

Llwyddiannau Gwastraff – yn erbyn targed cyffredinol o adfer 50 tunnell o wastraff lefel ganolraddol (ILW) yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae 30 tunnell wedi'u hadfer hyd yma gyda rhagolwg o 46t erbyn diwedd Mawrth 2022 (tua 5 tunnell o wastraff lefel ganolraddol wedi'i osgoi drwy ei lanhau i Wastraff Lefel Isel).

Llwyddiannau ym maes rheoli asedau –

- Mae'r gwaith Pwmp Dail a'r Geuffos Dargyfeirio bron â chael ei gwblhau, gan leihau'r risg o ran cyflwr asedau i safle Trawsfynydd.
- Cafodd peiriannau'r ffatri eu dihalogi a'u hanfon i'w hailgylchu drwy gyfleuster trin pwrpasol.
- Mae dihalogi'r ataliwr olew yn y prif faes parcio yn cael gwared â pheryglon hen adeiladau'r safle.
- Ailwampio'r prif faes parcio.
- Adnewyddu Sgwâr y Ddraig (Dragon Square).
- **LC28 (Arolygiadau Strwythurol a Diffygion Adeiladau Sifil) Mae'r broses o dynnu cen ar SS1 ac SS2 wedi'i gwblhau**
- **LC 28 Mae'r gwaith Pyllau Diffygion a Storfeydd Diogel wedi dechrau.**

Gwagio'r Cyfadeilad Pyllau – mae'r gwaith wedi'i gwblhau yn y meysydd canlynol:

  - Tanciau Oedi Terfynol
  - Ystafell Newid
  - Ystafell oeri'r pyllau
  - Ystafell Hidlo'r Pyllau (De)
- Ardal Trin elifion gweithredol - peiriannau'r islawr wedi eu tynnu a'u clirio. Cerrig milltir arwyddocaol wedi'u cyflawni o ran tynnu ardal peiriannau peryglus iawn.
- Y gwaith Trin Dŵr Tywallt wedi dechrau – ardal o bwys halogedig arall o'r hen adeiladau.

Lleihau uchder y storfa ddiogel -

- Ar hyn o bryd, yng ngham olaf y gwaith paratoi ar gyfer gwaith galluogi i ostwng uchder.
- Cwblhawyd y gwaith o dynnu asbestos mewn 6 o'r 8 teclyn codi ceblau.
- Disgwylir cwblhau yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2022/23.
- Gweithgareddau caffael cychwynnol y Gadwyn Gyflenwi wedi'u cwblhau ar gyfer yr ymgynghorydd Dymchwel a chymorth Peirianneg Ymgynghorol.
  - Penodi RVA yn Ymgynghorydd Dymchwel
  - Penodi Arup yn Ymgynghorydd Cymorth Peirianneg
- Adolygu goblygiadau Caniatâd Cynllunio
- Cytundeb i gyflymu Cam 2 Capio'r To - er mwyn gallu cwblhau'r darnau bach o Gapio'r To (a gafodd eu hepgor yn wreiddiol oherwydd gofynion gweithredol)
- Nodweddion Amcanion Ansawdd Data (DQO) wedi'i gwblhau a chynlluniau Samplu a Dadansoddi wrthi'n cael eu datblygu
- Adolygiad 2 o'r Awdurdod Dylunio wedi'i gwblhau
- Adolygiad 2 o'r Awdurdod Gwastraff wedi'i gwblhau
- Arolygon R&D Asbestos wedi dechrau

Gwaith safle ar gyfer y 6 mis nesaf –

- Cwblhau'r gwaith o adfer y gwastraff swmpus o FED y De.
- Cwblhau'r gwaith o roi concrid mân-dyllog yng nghladdgell FED y Gogledd.
- Cwblhau tynnu asbestos mewn teclynnau codi ceblau yn Storfa Ddiogel 2.

- Cwblhau'r gwaith o ddymchwel waliau mewnol Storfeydd diogel 1 a 2.
- Cwblhau'r gwaith o wagio'r Safle Trin Dŵr Tywallt yn ardal Cyfadeilad y Pyllau.
- Cwblhau'r gwaith a ymgymerwyd gan y prif gontractwr, JN Bentley, i Bwmp Dail a'r Geuffos Dargyfeirio, a datgymalu eu safle.

Ymweliadau â'r Safle – cyfeiriodd AR at sawl ymweliad safle dros y cyfnod adrodd, gan gynnwys Paul Winkle, Prif Swyddog Gweithredu Magnox, Dave Peattie, Prif Swyddog Gweithredol yr NDA, Cwmni Egino, Sky News a Phrifysgol Bangor. Nododd fod trefniadau ar y gweill ar gyfer ymweliad yr SSG â'r safle ym mis Medi/Hydref 2022.

Grantiau Economaidd-gymdeithasol Magnox –

- **Cymorth Covid** - mae £236k allan o £300k wedi cael ei gymeradwyo hyd yma. Darparwyd £25k i Awdurdodau Lleol ger 12 safle Magnox. Mae'r rhan fwyaf o'r gefnogaeth wedi bod ar gyfer darpariaethau banc bwyd – cyfarpar diogelu personol; bocsys babi ar gyfer teuluoedd agored i niwed, pecynnau creadigrwydd ar gyfer lles meddyliol. Hefyd, mae peiriannau argraffu 3D wedi cael eu prynu ar gyfer ysgol uwchradd a choleg i gynhyrchu feisorau ar gyfer gweithwyr allweddol.
- Derbyniodd **Neuadd Goffa Cricieth** £1,000 o gyllid economaidd-gymdeithasol cymydog da tuag at wella effeithlonrwydd ynni yn y neuadd.
- **Derbyniodd Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llyn Tegid** £23k o gyllid Magnox yn 2019 a oedd yn cefnogi camau cynnar y prosiect. Mae £38,970 ychwanegol wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer ffioedd proffesiynol er mwyn bodloni rhwymedigaethau gan gyrff cynllunio a rheoleiddio.
- Mae **Grŵp Llandrillo Menai** wedi cael cyllid uniongyrchol o £386,034 gan yr NDA tuag at brosiect LabSTEM sy'n werth £1.9m.

Nododd AR hefyd y bydd ymarfer Cynllun Argyfwng Lefel 1 yn cael ei gynnal ar 15 Mehefin lle bydd y Gwasanaethau Brys yn bresennol ar y safle.

Diolchodd y Cadeirydd i AR am ei ddiweddariad cynhwysfawr a gwahoddodd yr aelodau i gyflwyno unrhyw gwestiynau.

Sesiwn Holi ac Ateb

Holodd y Cyng. G Owen a fu cynnydd ym mhroffil y gweithlu. Holodd hefyd a oedd arian ychwanegol ar gael drwy'r grantiau Economaidd-Gymdeithasol. Nododd AR gynnydd bras o 30 ym mhroffil y gweithlu. Cadarnhaodd MJ y bydd cyllid ychwanegol ar gael.

Gofynnodd Paul Richardson a fyddai'r posibilrwydd o ddatblygu Adweithydd Modiwlaidd Bach (SMR) yn effeithio ar y broses ddatgomisiynu. Nododd AR ei bod yn rhy gynnar yn y broses i roi sylw.

Gofynnodd Matt Hencliffe a fyddai unrhyw waith ailgylchu'n cael ei wneud yn fewnol neu'n allanol. Dywedodd AR y byddai prif gontractwyr yn cael eu defnyddio o ran ailgylchu gan nad oes unrhyw sgiliau mewnol perthnasol.

Cadarnhaodd JT mai dim ond eitemau heb eu halogi fydd yn cael eu hailgylchu. Cadarnhaodd hefyd y bydd astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chynnal o ran defnyddio'r Rheilffordd yn y dyfodol.

Ailadroddodd y Cynghorydd Meredydd Williams y farn bod cynnal deialog barhaus gyda'r gymuned leol yn hanfodol.

Cyfeiriodd S Morgan at brosiectau lleol eraill a fydd yn cael eu cynnal dros y blynyddoedd nesaf a holodd ynghylch y posibilrwydd o drosglwyddo sgiliau gweithlu'r prosiectau hynny i safle Traws, a thrwy hynny sicrhau swyddi. Dywedodd AR mai cylch gwaith Magnox yw datgomisiynu'r safle ac na ragwelir unrhyw 'gwrthdaro' o ran materion yn ymwneud â'r gweithlu ar hyn o bryd. Pwysleisiodd y Cadeirydd eto mai rôl yr SSG yw cydweithio'n agos â'r broses ddatgomisiynu, gan gydnabod ei bod yn bosibl y bydd datblygiadau yn y dyfodol yn cael eu cyflawni ar y cyd.
Nododd BH y gallai unrhyw ddatblygwr 'adeiladu newydd' sefydlu grŵp rhanddeiliaid ar wahân.

6. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear - Ian Dallas
Roedd Mr Ian Dallas wedi ymddiheuro am ei absenoldeb, fodd bynnag, nodwyd a derbyniwyd cynnwys yr adroddiad a gyflwynodd. Roedd croeso i'r aelodau ddarparu unrhyw sylwadau neu ymholiadau pellach ar e-bost drwy Jill Callander. (jill.m.callander@magnoxsites.com)

7. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru - Iwan Williams
Nododd IW nad oedd unrhyw faterion arwyddocaol i'w nodi a bod cydweithio rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Magnox yn parhau gydag ymweliadau ar y safle yn cael eu hadfer yn dilyn cyfyngiadau COVID-19.

Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored – ni chodwyd unrhyw fater

8. Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd – Mike Baggs
Dywedodd MB fod 3 ymweliad safle wedi digwydd yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac nad oedd unrhyw faterion na phryderon ynghylch diffyg cydymffurfio wedi cael eu cofnodi. Dywedodd fod llawer o'r gwaith a wnaed wedi'i wneud mewn perthynas â dogfennau asesu ar gyfer dymchwel cyfadeilad y pyllau.

Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored – ni chodwyd unrhyw fater

9. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear – Simon Napper
Rhoddodd SN grynodeb o adroddiad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA), gan dynnu sylw at y canlynol yn arbennig:

Y Broses ar gyfer Lleoli Cyfleuster Gwaredu Daearegol (GDH) – mae tair Partneriaeth Gymunedol yng Ngorllewin Cumbria erbyn hyn. Mae Partneriaethau Cymunedol yn gam pellach yn y broses gychwynnol i ganfod ffeithiau a thrafod gyda'r gymuned leol ynghylch cynnal GDH.

Yn Swydd Lincoln, mae Theddlethorpe wedi cyhoeddi ei Ardal Chwilio leol, h.y. y man lle byddai'n chwilio am safle ar gyfer creu GDF. Mae'r Gweithgor lleol yn bwriadu symud y broses yn ei blaen dros y misoedd nesaf a sefydlu Partneriaeth Gymunedol.

Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi - dyddiad newydd wedi'i bennu ar gyfer 21 Gorffennaf 2022 a bydd yn cael ei gynnal yn The International Centre, Telford gyda seremoni Woobrau'r Gadwyn Gyflenwi yr un diwrnod.

NDA –'Keeping the Conversation going' – bydd Uwchgynhadledd y Rhanddeiliaid eleni yn ddigwyddiad wyneb yn wyneb a gynhelir yng Nghaeredin ar 7-8 Medi 2022

Yr NDA a Chwmni Egino yn Cydweithio - mae BEIS wedi cyhoeddi y bydd yr NDA yn gweithio gyda Chwmni Egino i ddatblygu cynigion ar gyfer datblygiadau niwclear newydd yn Nhrawsfynydd

Sesiwn Holi ac Ateb
Mynegodd y Cyng. Elfed Roberts y pryder lleol ynghylch gwaredu gwastraff. Esboniodd AR y 3 lefel o wastraff a sicrhaodd yr aelodau fod yr holl wastraff yn cael ei waredu yn unol â rheoliadau statudol llym.

Gofynnodd y Cynghorydd John Richards pryd y byddai'r adweithyddion nwy-oeredig uwch (AGRs) yn cael eu trosglwyddo i'r NDA. Nodwyd bod yr NDA wedi cael cyfarwyddyd gan y Llywodraeth i gymryd perchnogaeth o saith safle EDF AGR ar gyfer datgomisiynu yn y dyfodol. Bydd Magnox Ltd yn gyfrifol am ddatgomisiynu'r saith safle ar ôl gwagio tanwydd

Holodd Rory Trappe a oedd model gweithlu'r NDA ar gyfer datgomisiynu yn cynnwys sgiliau lleol cyfredol, ac a fydd yr elfen hon yn cael ei nodi'n glir yn y Strategaeth. Cydnabu SN y bydd y diwydiant datgomisiynu'n tyfu dros y blynyddoedd nesaf a bod prosiectau gweithlu'n cael eu cynnal ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

10. Y diweddaraf am brosiect dymchwel cyfadeilad y pyllau – Ian Warner
Rhoddodd IW adroddiad diweddaru ar yr uchod gan dynnu sylw penodol at ffurfweddiad y cyfadeilad. Amlinellodd y rhaglen waith gyfredol fel a ganlyn:-

- Tynnu peiriannau yn systematig
- Nodweddu
- Ffurfweddiad gwaredu
- Cydymffurfedd â dŵr daear
- Datblygu ceisiadau cynllunio
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Datblygu cais am amrywio trwydded

Cyfeiriodd at bwysigrwydd Ymgysylltu'n gadarn â Rhanddeiliaid, gyda Chynllun Cyfathrebu y cytunwyd arno yn gefn iddo. Bydd y gweithgareddau ymgysylltu yn cynnwys

- llythyr dwyieithog i gymunedau lleol i'w ddosbarthu'n gynnar

- creu Neuadd y Dref rithiol a fydd yn llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth a derbyn sylwadau.
- sefydlu canolfannau galw heibio mewn Llyfrgelloedd; caffi Lakeside a neuaddau Pentref/Tref

Sesiwn Holi ac Ateb
Holodd JR beth fyddai'n digwydd pe bai Parc Cenedlaethol Eryri yn erbyn unrhyw gynlluniau gwaredu. Nododd lW y byddai hyn yn dibynnu ar beth allai'r mater fod.

11. Datgomisiynu'r Rhaglen Dreigl – John Turp

Rhoddodd JT ddiweddariad ar Datgomisiynu'r Rhaglen Dreigl (RPD) a grynhoir fel a ganlyn:

- Disgwylir cymeradwyaeth strategol ar gyfer Achos Busnes yr RPD yr haf hwn, ac ar hyn o bryd mae yn y broses o gael ei gymeradwyo gan BEIS/y Trysorlys.

Gwaith i'r dyfodol:
- Datblygu manylebau ar gyfer cynlluniau dylunio technegol a masnachol
- Datblygu a darparu nodweddion cwmpas y gwaith i feithrin dealltwriaeth o briodweddau ffisegol a radiocemegol yr adweithyddion.
- Datblygu'r strategaeth wastraff ymhellach i ddatblygu ein dulliau gweithredu ar gyfer delio â'n sgil-gynhyrchion gwastraff yn y dyfodol, yn ymbelydrol ac yn anymbelydrol.
- Datblygu'r strategaeth fasnachol ar gyfer partneriaeth(au) tymor hir

Sesiwn Holi ac Ateb
Gofynnodd y Cyng. Meredydd Williams faint o wastraff concrit a allai fod, ac a fyddai'n cael ei falu. Nododd JT ei bod yn ansicr ar hyn o bryd ynghylch y swm, ond sicrhaodd yr aelodau y byddai unrhyw ailddefnyddio neu waredu yn cael ei wneud yn unol â'r trwyddedau priodol.

Holodd JR ynghylch y llwybr gwaredu ar gyfer graffit. Cadarnhaodd JT y byddai graffit yn cael ei storio mewn blychau ar y safle yn unol â rheoliadau. Nododd hefyd fod Rhaglen Waith Genedlaethol yn edrych ar ddulliau gwaredu graffit ar hyn o bryd ac y bydd aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am y gwaith hwn.

O ran pryderon yr aelodau am barhad presennol y gweithlu, roedd JT yn cydnabod yr angen am strategaeth recriwtio a chadw gadarn i nodi sgiliau trosglwyddadwy cyfredol.

12. Diweddariad Cwmni Egino – John Idris Jones
Atgoffodd JIJ yr aelodau bod Cwmni Egino, endid sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, wedi ei sefydlu er mwyn dod â chyflogaeth o safon a ffyniant economaidd i'r ardal, yn ogystal ag hyrwyddo dyfodol y Gymraeg. Cyflwynodd ddau aelod newydd o staff Cwmni Egino - Mr Adam Raymant, y Prif Swyddog Gweithredol ac

Elliw Williams, Swyddog Cyfathrebu. Rhoddodd Mr Adam Rayment anerchiad byr yn nodi mai'r gwaith allweddol ar gyfer y 12 mis nesaf fydd nodi rolau a chylch gwaith yn Egino, a dysgu o wersi a phrofiadau blaenorol gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod cydweithio gyda'r NDA yn allweddol er mwyn adnabod ffrydiau gwaith, rhyngwynebau safle a sicrhau gweithgarwch ar y cyd. Bydd hyn yn gwella'r gwaith o gynllunio adnoddau gyda mewnbwn Magnox. Roedd hefyd yn cydnabod y pryderon a godwyd gan aelodau yn ystod y cyfarfod ynghylch gweithlu'r dyfodol.

Llongyfarchodd y Cadeirydd Adam R a EW ar eu penodiadau.

Sesiwn Holi ac Ateb
Holodd RT a oedd unrhyw gwmnïau perthnasol wedi nodi Traws fel safle posibl ar gyfer lleoli Adweithydd Modiwlaidd Bach. Dywedodd AR nad oedd unrhyw gynigion wedi'u cadarnhau eto, ond ei fod yn fater pwysig gyda llawer o gwestiynau ar y bwrdd. Nododd EW bwysigrwydd ceisio barn yn lleol ac, fel Swyddog Cyfathrebu Egino, gwahoddodd yr aelodau i gysylltu â hi er mwyn hwyluso cyfleoedd ar gyfer trafodaeth leol.

13. Unrhyw fater arall
Aelodaeth SSG - Cynghorwyr Lleol
Cytunwyd y dylai Jill Callander adolygu'r uchod yng ngoleuni'r etholiadau diweddar i Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned. CAM GWEITHREDU – Jill Callander i adolygu'r rhestr ddosbarthu i sicrhau bod hyn yn gyfredol.

Gwaith Cynnal a Chadw
Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod gwaith i archwilio cyflwr y bont droed yn mynd rhagddo. Hefyd, mae lefel isel y llyn wedi bod o ganlyniad i waith cynnal a chadw ym Maentwrog, fodd bynnag mae disgwyl i'r lefel godi dros yr wythnos nesaf.

16. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dyddiad:	1 Rhagfyr 2022
Amser:	I'w gadarnhau
Lleoliad:	Canolfan Gynadledda a Sefydlu Trawsfynydd

Daeth y cyfarfod i ben am 3:30pm